



Teitl: Title:	Polisi Derbyniadau Addysg Uwch (AU)
Fersiwn: Version	1
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	Myfyrwyr Students

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	Cam 1 EIA Polisi Derbyniadau AU
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	Rheolwr Cydymffurfiaeth AU		
Ymgynghoriad / Consultation:	Cynrychiolwyr Myfyrwyr AU Grŵp Llywio Mynediad ac AU		
Dyddiad cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group	Grŵp Llywio Mynediad ac AU 16/06/21	
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:	16/06/21	
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	-
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	2021
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	-
	Corff Llywodraethu / Governing Body:	23/06/21	
Dyddiad Adolygu: Review Date:	16/06/24 Ymestyn tan 30/06/25		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

Tabl Cynnwys

Enw'r Strategaeth / Polisi

1. Diben	3
2. Cwmpas	3
3. Prif Egwyddorion	3
4. Cyfrifoldebau	4
5. Gofynion Mynediad	4
6. Y Broses Gwneud Cais	4
7. Apeliadau	5
8. Telerau ac Amodau	5
9. Ymgynghori a Chyfathrebu	6
10. Hyfforddiant	6
11. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a Deddfwriaeth	6
12. Y Gymraeg	6
13. Cynhwysiant	6
14. Addasrwydd i Astudio	
15. Ehangu Cyfranogiad	6
16. Newidiadau i Raglen	7
17. Ffioedd Dysgu	7
18. Data Personol Ymgeisydd	7

1. Diben

- 1.1. Diben y ddogfen hon yw amlinellu Polisi Derbyniadau Addysg Uwch (AU) y coleg.

2. Cwmpas

- 2.1. Mae'r Polisi'n berthnasol i bob Rhaglen AU y coleg a'r rhai a ddarperir mewn partneriaeth â'n partneriaid prifysgol.
 - 2.1.1. Mae'r Polisi hwn yn berthnasol ar gyfer rhaglenni Pearson dan arweiniad y coleg.
 - 2.1.2. Pan fyddwn yn gweithio gyda phartner prifysgol, bydd y coleg yn dilyn proses derbyniadau gytunedig partner y brifysgol.
- 2.2. Mae'n ystyried canllawiau'r sector yng Nghod Ansawdd QAA y Deyrnas Unedig ar gyfer Addysg Uwch a'r egwyddorion a gynhwysir yn adolygiad Schwartz o dderbyniadau addysg uwch i gefnogi a datblygu derbyniadau teg a phroffesiynol. Ei fwriad yw i ymgeiswyr ei ddeall yn rhwydd, i fod yn deg ac yn eglur i'r holl randdeiliaid, ac i fod yn seiliedig ar egwyddorion sy'n cael eu cymhwyso'n gyson ledled y coleg.
- 2.3. Mae'r Polisi'n cwmpasu'r egwyddorion cyffredinol cyffredinol a fabwysiadwyd gan y Coleg. Mae hefyd yn darparu, lle bo hynny'n briodol, gysylltiadau â rhagor o wybodaeth ar agweddau penodol ar y polisi megis collfarnau troseddol a diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.

3. Prif Egwyddorion

- 3.1. Mae'r coleg wedi mabwysiadu'r pum egwyddor allweddol derbyniadau teg fel y'i hamlinellwyd yn Adroddiad Schwarz 2004.
 - 3.1.1. Bod yn eglur;
 - 3.1.2. Lleihau rhwystrau ar gyfer ymgeiswyr;
 - 3.1.3. Dewis myfyrwyr sy'n gallu cwblhau eu rhaglen astudio ddewisol, wrth farnu eu cyflawniadau a'u potensial;
 - 3.1.4. Dewis dulliau asesu sy'n ddibynadwy ac yn ddilys;
 - 3.1.5. Bod yn broffesiynol ym mhob agwedd y broses dderbyniadau, wedi'i danategu gan strwythurau a phrosesau priodol.

4. Cyfrifoldebau

- 4.1.1. Mae'r tîm AU yn y coleg yn gyfrifol am weinyddu'r holl dderbyniadau AU, gyda'r partner prifysgol perthnasol (lle bo hynny'n briodol).
 - 4.1.1.1. Bydd Tîm Derbyniadau'r Coleg yn darparu cefnogaeth yn ôl yr angen.
- 4.1.2. Mae Timau Derbyniadau Prifysgolion yn gyfrifol am sicrhau yr ymdrinnir â phob cais yn deg ac yn amserol.
- 4.1.3. Mae amserlenni ar gyfer prosesu ceisiadau yn wahanol rhwng partneriaid prifysgol ac fe'u gweinyddir yn unol â'u Polisiâu Derbyniadau.

- 4.1.4. Mae staff academiaidd yn gyfrifol am adolygu ceisiadau AU mewn modd amserol.
 - 4.1.4.1. Cysylltu â chydweithwyr;
 - 4.1.4.2. Siarad ag ymgeiswyr i drafod eu cais ac egluro ymholiadau.
 - 4.1.4.3. Am gymeradwyo a gwrthod ceisiadau.

5. Gofynion Mynediad

- 5.1. Dangosir holl ofynion mynediad y cwrs ar broffil y cwrs ar gyfer pob cwrs, sydd ar gael ar wefan y coleg.
- 5.2. Maent yn cynnwys;
 - 5.2.1. Unrhyw ofynion Iaith Saesneg.
 - 5.2.2. Unrhyw ofynion ar gyfer Mathemateg a lefelau pwnc penodol eraill a graddau sy'n ofynnol ar gyfer mynediad.
 - 5.2.3. A ellir ystyried sgiliau a phrofiad wrth adolygu'r cais.
- 5.3. Mae partneriaid y coleg a'r brifysgol yn cadw'r hawl i ofyn am brawf o gymwysterau, sgiliau a phrofiad ac i dynnu unrhyw gynigion a wneir os na ellir gwirio'r wybodaeth berthnasol.
- 5.4. Pan fydd angen gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), bydd hyn wedi'i nodi'n glir ar broffil y cwrs.

6. Y Broses Gwneud Cais

- 6.1. Mae ymgeiswyr yn gwneud cais trwy wefan y coleg trwy glicio ar y botwm 'Gwneud Cais Rŵan' ar dudalen we proffil y cwrs perthnasol.
- 6.2. Gwahoddir ymgeiswyr i sefydlu cyfrif ar-lein gyda'r coleg (Cam 1), neu fe'u cyfeirir at wefan ein partner prifysgol i wneud eu cais.
 - 6.2.1. Ar gyfer ceisiadau yn uniongyrchol i'r coleg, gofynnir i ymgeiswyr gwblhau Cam 2 eu cais ar-lein, gan ddarparu (lle bo hynny'n berthnasol);
 - 6.2.1.1. Manylion personol a manylion cyswllt;
 - 6.2.1.2. Manylion unrhyw gymorth gofynnol;
 - 6.2.1.3. Gobeithion am yrfa;
 - 6.2.1.4. Sgiliau a phrofiad blaenorol;
 - 6.2.1.5. Ffurflenni cais prifysgol wedi'u llenwi;
 - 6.2.1.6. Geirdaon (os oes eu hangen);
 - 6.2.1.7. Copïau o dystysgrifau cymwysterau;
 - 6.2.1.8. Datganiad Personol (os oes ei angen).
 - 6.2.2. Ar gyfer ceisiadau trwy wefan ein partner prifysgol, gofynnir i ymgeiswyr gwblhau'r cais llawn gan ddefnyddio porth partner y brifysgol.
- 6.3. Adolygu ceisiadau a gwneud penderfyniadau;
 - 6.3.1. Bydd ceisiadau'n cael eu hadolygu gan staff perthnasol naill ai yn y coleg neu'r partner prifysgol, i asesu addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer y cwrs, yn seiliedig ar;
 - 6.3.1.1. Y wybodaeth y mae'r ymgeisydd yn ei darparu yn ystod y broses gwneud cais;
 - 6.3.1.2. A yw'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r gofynion mynediad ar gyfer y cwrs;
 - 6.3.1.3. Unrhyw wybodaeth ychwanegol y gall yr adolygydd ofyn amdani i asesu addasrwydd e.e. galwad

ffôn i drafod a sefydlu addasrwydd sgiliau a phrofiad.

- 6.3.2. Canlyniad
 - 6.3.2.1. Rhoddir gwybod am y canlyniad i dîm derbyniadau partneriaid prifysgol neu'r coleg, a fydd yn cyfathrebu canlyniad y cais. Gall y rhain fod ar y ffurfiau canlynol ac amrywio yn ôl sefydliad;
 - 6.3.2.1.1. Cofrestriad Amodol
 - 6.3.2.1.2. Cofrestriad Diamod
 - 6.3.2.1.3. Cais Aflwyddiannus
 - 6.3.3. Bydd pob ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn llythyr cynnig amodol/diamod coleg a/neu bartner prifysgol.
 - 6.3.4. Cysylltir ag ymgeiswyr aflwyddiannus i ddarparu'r canlyniad a chyngor ac arweiniad ychwanegol.
 - 6.3.4.1. Dim ond os nad yw'r ymgeisydd yn cwrdd â'r gofynion mynediad gofynnol y gellir gwrthod ceisiadau, neu os oes mater DBS a fyddai'n atal gofynion y rhaglen rhag cael eu cyflawni.
 - 6.3.4.2. Os yw hyn yn wir, darperir cyngor ac arweiniad amgen.

7. Apeliadau

- 7.1. Os yw ymgeisydd yn dymuno apelio am y penderfyniad i beidio â chynnig lle iddynt, gallant wneud cais apêl ysgrifenedig.
- 7.2. Dylid anfon apeliadau at y Rheolwr Cydymffurfiaeth AU yn he@cambria.ac.uk o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl y penderfyniad i beidio â chynnig lle.
- 7.3. Bydd y Rheolwr Cydymffurfiaeth AU yn trefnu'r adolygiad apêl, a fydd yn cael ei gynnal gan y Pennaeth Cynorthwyol perthnasol.
- 7.4. Bydd y Rheolwr Cydymffurfiaeth AU yn cadarnhau canlyniad yr apêl yn ysgrifenedig i'r ymgeisydd fel rheol o fewn 15 diwrnod gwaith. Efallai y bydd angen hirach i gasglu gwybodaeth berthnasol a chaiff hyn ei gadarnhau i'r ymgeisydd gan y Rheolwr Cydymffurfiaeth AU o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr apêl ysgrifenedig.
- 7.5. Mae canlyniad y cyfarfod apêl yn derfynol.

8. Telerau ac Amodau

- 8.1.1. Bydd telerau ac amodau'r coleg yn berthnasol ar gyfer holl raglenni Pearson.
- 8.1.2. Ar gyfer pob rhaglen partner prifysgol, bydd telerau ac amodau'r brifysgol berthnasol yn berthnasol.
- 8.1.3. Mae'r telerau ac amodau ar gael trwy wefan y coleg.

9. Ymgynghori

- 9.1.1. Mae'r polisi hwn wedi'i adolygu gan;
 - 9.1.1.1. Cynrychiolwyr Myfyrwyr AU
 - 9.1.1.2. Y Grŵp Llywio a Mynediad AU

- 9.1.1.3. Y Pwyllgor Diwylliant a Chyfathrebu
- 9.1.2. Bydd Polisi Derbyniadau AU yn cael ei gyhoeddi ar wefan y coleg.

10. Hyfforddiant

- 10.1.1. Mae'r Cydymffuriad AU yn gyfrifol am y rhaglen Hyfforddiant Derbyniadau AU ar gyfer Arweinwyr Rhaglenni a Chyfarwyddwyr Cwricwlwm.
- 10.1.2. Rhoddir diweddariadau i staff perthnasol yn ôl yr angen.

11. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a Deddfwriaeth

- 11.1. Mae'r polisi wedi cael ei hysbysu ac mae'n cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth, diogelu data a Hawliau Dynol perthnasol ac mae'n cefnogi Cynllun Cydraddoldeb Strategol y coleg.
- 11.2. Mae'r coleg wedi ymrwmo i ddarparu amgylchedd cynhwysol a hygyrch ac mae'n ymdrechu i wneud addasiadau rhesymol i ddiwallu anghenion unigol.
- 11.3. Gellir gweld manylion ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar wefan y coleg.
- 11.4. Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb ynghlwm â'r polisi hwn.

12. Y Gymraeg

- 12.1. Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â'r Safonau Cymraeg fel y'u gosodwyd gan Lywodraeth Cymru o dan adran 44 o Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.
- 12.2. Hysbysir pob myfyriwr o'u hawliau cyfreithiol o dan y Mesur gan gynnwys yr hawl i wneud eu hasesiadau trwy gyfrwng Cymraeg.
- 12.3. Gall myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gwrs AU yn y Coleg ddilyn cwrs Cymraeg am ddim.
- 12.4. Darperir cyfathrebiadau safonol sy'n ymwneud â'r broses Derbyniadau AU yn ddwyieithog.

13. Cynhwysiant

- 13.1. Gofynnir i ymgeiswyr ddarparu manylion unrhyw anghenion cynhwysiant a allai fod ganddynt wrth wneud cais. Mae hyn yn ein helpu ni a'n partneriaid prifysgol i ddarparu'r gefnogaeth orau bosibl i ddysgwyr.
- 13.2. Dilynnir [proses cynhwysiant](#) y coleg ar gyfer pob ymgeisydd AU.

14. Addasrwydd i Astudio

- 14.1. Lle mae pryderon ynghylch ffitrwydd dysgwr i astudio, bydd y coleg yn dilyn y Polisi Addasrwydd i Astudio neu bolisi partner y brifysgol.

15. Ehangu Cyfranogiad

- 15.1. Rydym wedi ymrwmo i ehangu cyfranogiad fel yr amlinellwyd yn ein Strategaeth AU ac fel y'i cyhoeddwyd yn ein Cynllun Nwyddau Cyhoeddus, y ddau ar gael ar ein gwefan.

16. Newidiadau i Raglen

- 16.1. Os bydd unrhyw newidiadau i raglen ar ôl ei hysbysebu, byddwn yn cysylltu â myfyrwyr yr effeithir arnynt. Bydd unrhyw newidiadau a gynigir a'n cyfathrebiadau yn cydymffurfio â Chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA).

17. Ffioedd Dysgu

- 17.1. Mae'r ffioedd dysgu fel y nodwyd ar broffil y cwrs ac yn berthnasol yn flynyddol.

18. Data Personol Ymgeisydd

- 18.1. Rydym yn prosesu data personol ymgeisydd yn unol â deddfwriaeth berthnasol Diogelu Data a GDPR.
- 18.2. Lle rhennir gwybodaeth â phartneriaid prifysgol, mae cytundebau rhannu data ar waith.
- 18.3. Rydym yn cadw'r hawl, fel yr amlinellwyd yn ein polisiau, i rannu data perthnasol â chyrrff dyfarnu ac ariannu, yn ôl yr angen i sicrhau bod cymwysterau dysgwr yn cael eu gweinyddu'n effeithiol.